# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd A Thrafnidiaeth

## EDT(2) 01-06 (p.2)

### Dyddiad: 11 Ionawr 2006
### Amser: 9.00 - 12.30
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Cymru: Economi yn Ffynnu

#### Diben

1. Mae’r papur hwn yn gwahodd barn y pwyllgor ar Fframwaith Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Datblygu Economaidd, Cymru: Economi yn Ffynnu.

#### Cefndir

2. Ar 23 Tachwedd 2005, lansiais strategaeth Cymru: Economi yn Ffynnu (WAVE) ar y cyd â’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Bydd yr ymgynghori’n para hyd at 28 Chwefror a bydd yr ymatebion i’r ymgynghori yn helpu i lywio polisïau datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad ar ôl yr uno.

3. Mae WAVE yn nodi’r cynnydd sylweddol a fu yn economi Cymru ers i’r Cynulliad ddod i fodolaeth. Mae’r nifer o bobl mewn cyflogaeth wedi codi mwy na 100,000 ac mae diweithdra wedi disgyn 37 y cant, sef y gostyngiad cymesur mwyaf ymhlith holl wledydd a rhanbarthau’r DU. Mae’r cyflawniadau hyn yn rhoi sail gadarn i symud ymlaen i’r cam nesaf, gan helpu mwy o bobl fyth i ddechrau gweithio, a chan ganolbwyntio’n gynyddol ar helpu cyflogwyr i wella ansawdd swyddi newydd a swyddi presennol, fel bod enillion yn gallu cynyddu ymhellach. Wrth bwysleisio pa mor bwysig yw cyflogaeth ac enillion, mae’r ddogfen yn canolbwyntio ar y materion economaidd sydd bwysicaf i bobl ar draws Cymru.

4. Y weledigaeth a nodir yn WAVE yw economi ffyniannus yng Nghymru sy’n cyflawni twf economaidd cryf a chynaliadwy, drwy ddarparu cyfleoedd i bawb. Mae WAVE hefyd yn nodi sut y bydd y gwaith o gefnogi’r weledigaeth hon yn cael ei ddatblygu, drwy adeiladu ar waith gorau’r holl sefydliadau sy’n ymwneud â’r uno. Mae hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw integreiddio datblygu economaidd yn llawn â gwaith sy’n ymwneud yn fwy â’r elfennau cymdeithasol ac amgylcheddol ar ddatblygu cynaliadwy.

5. Ers cyhoeddi’r ddogfen, mae’r Gweinidogion a swyddogion wedi cynnal trafodaethau ledled Cymru â phartïon sydd â diddordeb, gan gynnwys y rhan fwyaf o Grwpiau’r Cynllun Gofodol, nifer o Fforymau Economaidd Rhanbarthol, ystod o grwpiau busnes, a sefydliadau sy’n cynrychioli grwpiau neu sectorau

penodol (er enghraifft, cynrychiolwyr Anabledd Cymru). Mae’r sesiynau hyn wedi bod yn adeiladol ac yn gadarnhaol, ac yn gyffredinol, mae’r ddogfen wedi’i derbyn yn dda. Mae sesiynau pellach gydag ystod o sefydliadau lleol a chenedlaethol eraill wedi’u trefnu drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

## Goblygiadau Ariannol

6. Mae WAVE yn nodi blaenoriaethau eang Llywodraeth y Cynulliad o ran datblygu economaidd, ac mae’n ymwneud â sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn blaenoriaethu’r arian sydd ganddi ar gyfer datblygu economaidd. Yn hynny o beth, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth y Cynulliad.

## Camau i’r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd

7. Ystyried Cymru: Economi yn Ffynnu, a gwneud sylwadau arno.

**Andrew Davies**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

Pwynt Cyswllt: Bethan Bateman, Yr Is-adran Polisi Economaidd 1, 2082 6741